COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 1 CHWEFROR 2018, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett | SK Dendy |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | RMI Shaw |
| JC Spanswick | RME Stirman | JH Tildesley MBE | MC Voisey |
| KJ Watts | CA Webster | AJ Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins a/ac T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| craig flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Susan Jones | Rheolwr Cynllunio Datblygu |
| Hayley Kemp | Prif Swyddog Cynllunio |
| Ingrid Iekaj | Cyfreithiwr Dan Hyforddiant |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

76. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr Aelodau canlynol:

Cynghorydd T Thomas
Cynghorydd R Collins

77. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaethpwyd y datganiadau o fuddiant canlynol: -

Cynghorydd JC Spanswick - Buddiant personol yn eitem 9 ar yr Agenda gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymuned Bracla

Cynghorydd JP Blundell - Buddiant rhagfarnus yn eitem 10 ar yr Agenda gan ei fod yn byw gerllaw safle'r cais. Gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

78. YMWELIADAU SAFLE

PENDERFYNWYD: Cadarnhau dyddiad 14 Mawrth 2018 ar gyfer unrhyw archwiliadau safle arfaethedig a fyddai'n codi yn y cyfarfod, neu a drefnir cyn y Pwyllgor nesaf gan y Cadeirydd.

79. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 21 Rhagfyr 2017 yn rhai gwir a chywir.

80. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd unrhyw siaradwyr cyhoeddus wedi'u rhestru i siarad yn y cyfarfod heddiw.

81. TAFLEN DDIWYGIO

PENDERFYNWYD: Derbyniodd y Cadeirydd Daflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i adroddiad y Pwyllgor, er mwyn gallu ystyried sylwadau hwyr a diwygiadau y mae'n ofynnol eu cynnwys.

82. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Nodi adran yr adroddiad sy'n amlinellu'r uchod.

83. P/17/610/FUL - LIDL, FFORDD ANTWN, TONDU, CF32 9GA

PENDERFYNWYD: (1) Yng nghyd-destun y cais canlynol, bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i ddarparu cyfraniad ariannol o £6500 (sy'n fynegrifedig) i ariannu newidiadau i'r system MOVA a threfniadau gosod cyffordd yr A4063 gyda signalau:-

Cynnig

Dymchwel y siop manwerthu bwyd bresennol a gosod siop manwerthu bwyd newydd (Dosbarth Defnydd A1), yn ei lle ynghyd ag aildrefnu'r maes parcio, mannau allanol a threfniadau gwasanaethu.

(2) Bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau yn cael pwerau dirprwyedig i anfon rhybudd penderfynu sy'n rhoi caniatâd mewn perthynas â'r cynnig hwn unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi ymrwymo i'r Cytundeb A106 a enwyd eisoes, yn amodol ar yr Amodau a gynhwysir yn ei adroddiad.

Yn amodol ar newid brawddeg olaf Amod 1 yn yr adroddiad i gyfeirio at Luniad Rhif 010001 **Diwygiad 5** a dderbyniwyd ar 19 Ionawr 2018, er mwyn osgoi amheuaeth ynghylch natur a maint y cynllun a gymeradwywyd, ac i gynnwys y Nodyn O dilynol: -

"Hysbysir yr ymgeisydd y dylai'r cynllun a gymeradwywyd gael ei weithredu yn unol â'r argymhellion a amlinellwyd yn Adran 8 yr Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol a'r Arolwg Ystlumod a dylid rhoi sylw i'r strategaeth goleuo o gwmpas y siop newydd er mwyn osgoi unrhyw effeithiau gweddilliol anffafriol sylweddol ar fioamrywiaeth.

84. P/17/393 /FUL - TIR I'R GORLLEWIN O FRYN BRAGL, BRACLA, CF31 2LP

PENDERFYNWYD: (1) O ystyried y cais canlynol, mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i ddarparu isafswm o 2 uned (20%) fel unedau tai fforddiadwy yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol 12 am byth: -

Cynnig

Datblygiad preswyl o 10 uned tai fforddiadwy, lle parcio ceir, mynediad, mannau agored a gwaith cysylltiedig

(2) Rhoi pŵer dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gyhoeddi rhybudd penderfynu sy'n rhoi caniatâd i'r datblygiad yn ddarostyngedig i'r Amodau a gynhwysir yn ei adroddiad.

Yn amodol hefyd ar y canlynol: -
'Bydd Amod ychwanegol yn cael ei hychwanegu at yr argymhelliad yn gofyn am fanylion lefelau llawr gorffenedig y datblygiad mewn perthynas â lefelau llawr / safle presennol y byngalos presennol, a chroestoriad ar draws y safle a'r byngalos cyfagos.'

Bod Amod 11 yr adroddiad yn cael ei diwygio'n rhannol er mwyn cyfeirio at Ardal Chwarae ag Offer wedi ei Ddarparu'n Lleol (LEAP)

85. P/17/1043/RLX - TIR I'R GORLLEWIN O HEOL TŶ MAEN, CEFN GLAS, CF31 4QF

PENDERFYNWYD: (1) O ystyried y cais canlynol, bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Weithred Amrywio neu Rwymedigaeth A106 atodol i gadarnhau bod yr holl rwymedigaethau yn y Cytundeb Adran 106 presennol yn berthnasol i'r caniatâd Adran 73: -

Cynnig

Amrywio Amod 14 o P/15/358 /OUT i gynyddu nifer yr unedau preswyl i 200

(2) Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i gyhoeddi rhybudd penderfynu sy'n rhoi caniatâd mewn perthynas â'r cynnig hwn, unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi ymrwymo i'r Cytundeb Adran 106 uchod, yn ddarostyngedig i'r Amodau amlinellol safonol a'r Amodau a gynhwysir yn ei adroddiad.

Yn amodol hefyd ar y diwygiad a ganlyn: -

'Bod telerau'r Cytundeb A106 mewn perthynas â'r cyfraniad addysgol yn cael eu diwygio i gyfeirio at leoedd ysgol gynradd ac/neu uwchradd i'w gadw'n berthnasol i bob lle mewn ysgol.'

86. APELIADAU

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu adroddiad am yr Apeliadau a dderbyniwyd, ac y penderfynwyd arnynt, ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r Apêl ganlynol a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf:-

| Rhif Cod | Pwnc yr Apêl |
|---|---|
| D/17/3190447(1820) | Ailwampio tŷ presennol, portsh mynedfa newydd, codi uchder y to er mwyn addasu'r atig /ail lawr, lle parcio i gerbydau. Maesgwyn House, 63 Blackmill Road, Bryncethin. |

(2) Bod yr Arolygydd/Arolygwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr Apeliadau canlynol wedi gorchymyn y dylai'r Apeliadau gael eu GWRTHOD (a bod y Rhybudd Gorfodi ar gyfer yr Apêl gyntaf isod yn cael ei gadarnhau): -

| Rhif Cod | Pwnc yr Apeliadau |
|---|---|
| C/17/3179866(1808) | Defnydd heb ei awdurdodi ar gyfer busnes Cyfrifeg, 2 Tythegston Close, Nottage, Porthcawl. |
| A/17/3184080(1817) | Dymchwel byngalo presennol ac adeiladu 3 annedd deulawr ar wahân yn ei le, Summerville Bungalow, Heol Las, Mawdlam |

(3) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Un o Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr Apêl ganlynol wedi gorchymyn y dylid ei CHANIATÁU, yn ddarostyngedig i'r Amodau: -

| Rhif Cod | Pwnc yr Apêl |
|---|---|
| A/17/3186945(1816) | Newid defnydd annedd preswyl sengl (C3) i gartref gofal byw-â-chymorth 10 ystafell wely (C2) a gwaith cysylltiedig, gan gynnwys addasu garej i 3 ystafell wely. Addasu ychwanegiad presennol i 2 uned hunangynhwysol a mewnlenwi estyniad portsh, North Lodge, Penyfai. |

87. LOG HYFFORDDIANT

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp Datblygu adroddiad yn manylu ar y sesiynau Hyfforddi i ddod a oedd wedi'u trefnu ar gyfer Aelodau yn ystod y misoedd nesaf fel rhan o'u rhaglen datblygu hyfforddiant.

Cytunodd yr Aelodau y dylid trefnu sesiynau hefyd yn ychwanegol at y 3 a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn cwmpasu'r meysydd canlynol: -

- Arbed Ynni
- Cytundebau A106 (i gynnwys cyfraniadau Addysg/ Priffyrdd ac unrhyw gyfraniadau perthnasol eraill o'r fath)
- Cynllun Datblygu Lleol

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

88. DIWEDDARIAD AR YR YMATEB I LYTHYR YSGRIFENNYDD Y CABINET YNGLŶN Â CHYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL AR Y CYD A CHYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL RHANBARTHOL

Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu adroddiad ynghyd ag Atodiadau 1 a 2 ynghlwm, ynglŷn â diweddariad ar yr ymateb i Ysgrifennydd y Cabinet, am lythyron

Lesley Griffiths ynghylch ei gwahoddiad hi i ymgymryd â Chynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd a Chynllun Datblygu Strategol rhanbarthol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn am gyflwyno ymatebion cadarnhaol i'r gwahoddiad erbyn 28 Chwefror 2018. Tan hynny ni fydd Llywodraeth Cymru yn cytuno i weithio ar unrhyw gynllun ar ei ben ei hun.

O ran Cynlluniau Lleol ar y Cyd, mae’r gwahoddiad yn gofyn am roi ystyriaeth ddifrifol i baratoi cynllun ar y cyd gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Caerffili.

Mae goblygiadau arwyddocaol yn ymwneud ag amseru’r llythyrau o ran Pen-y-bont ar Ogwr oherwydd bod arno angen dechrau gweithio ar unwaith ar Adolygiad o'i CDLl a fydd yn dod i ben yn 2021. Mae cynllun datblygu cyfredol yn bwysig i arwain datblygu cynaliadwy a hyrwyddo cyfleoedd buddsoddi ac atal datblygu amhriodol.

Er mwyn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o fynd ymlaen a fyddai’n parhau â chwmpas y cynllun ac yn sicrhau'r canlyniadau cynllunio gorau, ystyrir nifer o opsiynau realistig a bydd risg yn cael ei asesu. Bwriedir i hyn fod yn sail i ymateb y Cyngor hwn i'r Gweinidog.

Eglurodd fod yr opsiynau canlynol yn cael eu hystyried: -

1. Paratoi Cynllun Datblygu Strategol yn unig heb unrhyw adolygiadau unigol o'n CDLl presennol hyd nes y mabwysiadir y Cynllun Datblygu Strategol.

2. Gwneud Adolygiad Unigol o'r CDLl wrth gydweithio yr un pryd ar y Cynllun Datblygu Strategol gyda'r rhanbarth.

3. Cydweithio 'Plws' gydag adolygiad unigol o CDLl Pen-y-bont ar Ogwr wrth weithio yr un pryd â chyngor Rhondda Cynon Taf (ac Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill) i baratoi sail dystiolaeth ar y cyd a gweithio hefyd gyda'r rhanbarth i baratoi Cynllun Datblygu Strategol.

4. CDLl ar y cyd gyda Rhondda Cynon Taf a Chaerffili wrth gydweithio yr un pryd â'r rhanbarth i baratoi Cynllun Datblygu Strategol.

5. CDLl ar y cyd gyda Rhondda Cynon Taf yn unig wrth gydweithio â'r rhanbarth i baratoi Cynllun Datblygu Strategol.

Amlinellwyd ac ystyriwyd pob opsiwn yn yr adroddiad (cyfeiriwyd at baragraff 1.9), a'r hyn sy'n dod i'r amlwg o'r ymarferiad ac o sylwadau ar draws y rhanbarth yw bod manteision a chefnogaeth eang ar draws y rhanbarth i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Ond mae yna beryglon i Ben-y-bont ar Ogwr pe baem, fel o dan Opsiwn 1, yn rhoi’r gorau i baratoi CDLl, o gofio y byddai gwactod polisi tebygol y tu hwnt i 2021. Byddai hynny’n parhau hyd nes y byddai’r Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei fabwysiadu a bod gwaith yn gallu symud ymlaen yn wirioneddol ar y CDLl 'llai'.

Mae hefyd yn dod i'r amlwg o'r ymarferiad hwn ac ar draws y rhanbarth bod yna risgiau a chymhlethdodau sylweddol a dim awydd i ddatblygu CDLl ar y Cyd. O ran Pen-y-bont ar Ogwr, byddai gwactod polisi yn dal i fod o wybod am gymhlethdod paratoi Cynlluniau ar y Cyd, nad ydynt yn debygol o fodoli cyn 2021, fel yr amlinellwyd yn Opsiynau 4 a 5.

Yr Opsiynau mwyaf ffafriol yw 2 a 3, lle mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio ar ei Adolygiad CDLl ac yn cydweithio ar y Cynllun Datblygu Strategol yr un pryd. Opsiwn 3 -

Mae'n debygol mai Cydweithio 'Plws' fydd y dewis mwyaf cost-effeithiol a hwylus, gyda CDLl newydd yn ei le erbyn y dyddiad hollbwysig sef 2021.

Mae'r adroddiad yn nodi pam ei fod mor bwysig i Ben-y-bont ar Ogwr barhau i ymdrin â chwmpas y cynllun, o ystyried diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd a'r angen i nodi safleoedd newydd. Byddai Cynllun newydd yn arwain datblygiad i'r lleoliadau cywir ac ni fuasem fel Awdurdod Cynllunio Lleol yn derbyn gorchmynion gan y diwydiant datblygu nac yn dioddef o 'gynllunio trwy apêl', a allai danseilio unrhyw Strategaeth Ddatblygu ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a hyd yn oed gyfeiriad Cynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol.

Barn y Swyddogion yw mai rôl y Cynllun Datblygu Strategol yw rheoli materion trawsffiniol yn effeithiol. Dyfynnir hyn gan y Gweinidog fel un o'r prif resymau dros ymgymryd â chynlluniau ar y cyd. Nid swyddogaeth cynlluniau isranbarthol yw hyn, ond dyna fyddai canlyniad nifer o CDLlau ar y Cyd ar draws y rhanbarth, a fyddai'n eithrio Caerdydd a Bro Morgannwg. Gellir rheoli materion trawsffiniol yn effeithiol trwy gynnal adolygiad unigol trwy weithio'n agos ac ar y cyd â'n cymdogion a'r rhanbarth a thrwy rannu sail dystiolaeth cyn belled ag y bo modd.

Bydd swyddogion yn parhau i weithio ar yr ymatebion i'r Gweinidog, a'r cam nesaf fydd cyflwyno adroddiad pellach i'r Cyngor ar 28 Chwefror.

Fel diweddariad pellach ychwanegodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu fod Arweinwyr ar draws y rhanbarth wedi ystyried llythyrau'r Gweinidogion ddydd Llun diwethaf. Adroddodd yr Arweinydd ar lafar yn y Cyngor ddoe fod consensws cyffredinol o blaid paratoi Cynllun Datblygu Strategol, ond y byddai CDLl ar y Cyd yn tynnu sylw oddi wrth y gwaith pwysig hwn. Dywedodd ei bod yn hanfodol i Ben-y-bont ar Ogwr warchod cwmpas y cynllun.

Yn olaf, daeth â'i chyflwyniad i ben trwy ddweud mai barn y Swyddogion oedd y byddai hyn yn cael ei wneud yn y ffordd fwyaf effeithiol trwy gynnal Adolygiad CDLl unigol gyda chydweithrediad agos â'r rhanbarth.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

89. CANLYNIADAU AROLWG AMSERU CYFARFODYDD - AMSER DECHRAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth, er mwyn nodi canlyniadau'r ail arolwg amseru cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gais Aelodau'r Pwyllgor, a chynnig cynnwys unrhyw newidiadau i amseriadau ei gyfarfodydd wrth ddatblygu Calendr y Cyfarfodydd, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mai 2018.

Cyflawnwyd yr arolwg ar 5 Ionawr 2017 a chafodd ei gwblhau gan holl Aelodau'r Pwyllgor. Dangosir y canlyniadau ym mharagraff 4.2 yr adroddiad. Dangosodd hyn mai'r amser delfrydol ar gyfer cychwyn cyfarfodydd yn y dyfodol oedd 2.00pm.

Gallai unrhyw newid a gyflwynir yn sgil yr arolwg gael effaith ar amseriadau cyn-gyfarfodydd y Pwyllgor, sesiynau hyfforddi ac Archwiliadau Safle'r Pwyllgor, a thrafodwyd opsiynau posibl ar gyfer amseru'r rhain yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: (1) Bod yr Aelodau'n nodi canlyniadau arolwg amseru cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

(2) Y dylid cynnwys unrhyw ddiwygiad i amseru'r cyfarfodydd wrth ddatblygu Calendr y Cyfarfodydd y bwriedir ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mai 2018.

90. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYMRU GYFAN 2016-2017

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Grŵp adroddiad ar yr uchod; dogfen gyhoeddus ffeithiol sy'n amlinellu sut mae awdurdod cynllunio lleol wedi perfformio yn erbyn dangosyddion penodol gan nodi'r hyn a wnaeth yn dda, fel y gellir rhannu hyn gydag eraill, a pha gamau y gellid eu cymryd i ymdrin â meysydd perfformiad sydd angen eu gwella.

Aeth ymlaen i gyflwyno crynodeb o'r adroddiad, a dywedodd wrth yr Aelodau fod perfformiad yr awdurdod cynllunio lleol ar y cyfan wedi gwella yn erbyn mwyafrif y dangosyddion ar gyfer y cyfnod uchod, o'i gymharu â chyfnod adrodd 2015-16. Nodwyd bod perfformiad Pen-y-bont ar Ogwr o gwmpas y cyfartaledd neu'n uwch na'r cyfartaledd am y cyfnod hwn yn gyffredinol, ac roedd enghreifftiau o'i berfformiad ar draws nifer o wahanol feysydd wedi'u nodi ar ffurf pwyntiau bwled yn yr adroddiad.

Teimlai un Aelod y byddai'n fantais i'r cyhoedd pe bai desg gwasanaethau i gwsmeriaid yn cael ei hailgyflwyno yn yr Adran.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Grŵp na allai toriadau mewn staffio ganiatáu ar gyfer hyn, er y gellid cael cyngor cyffredinol ar faterion cynllunio gan adran Gwasanaethau'r Cwsmer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ger prif fynedfa adeilad y Swyddfeydd Dinesig.

Canmolodd yr Aelodau staff yr Adran Gynllunio am eu perfformiad yn ystod 2016-2017, yn enwedig wrth ystyried lefel y toriadau staffio yr oedd wedi eu hwynebu ers y dirwasgiad.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ac Adroddiad Perfformiad Cynllunio Cymru Gyfan 2016-2017.

91. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:36